Children in Wales
Plant yng Nghymru

E-friffiad i aelodau 02 Awst 2019
Members' e-briefing 02 August 2019

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Mae'r e-friffiad wythnosol hon yn cael ei baratoi'n arbennig ar eich cyfer chi fel rhan o'ch pecyn aelodaeth Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi am y newyddion a'r polisïau diweddaraf sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys manylion digwyddiadau a swyddi gwag a allai fod o ddiddordeb i chi.

I weld y rhestr lawn o fuddion aelodaeth sydd ar gael i chi, cliciwch yma. Os oes gennych sylwadau ar yr e-friffiad hon, cysylltwch â info@childreninwales.org.uk.

Swyddi Gwag

Dewch o hyd i'r swyddi gwag diweddaraf ar wefan Plant yng Nghymru. Peidiwch ag anghofio - gall aelodau hysbysebu am ddim.

- Mae Plant yng Nghymru yn chwilio am Swyddog Datbblygu ar gyfer y Prosiect Paratoi. Drwy ddatblygu a chyflwyno ystod o adnoddau, bydd deilydd y swydd yn gweithio i rymuso pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal trwy wella'u gwybodaeth am eu hawliau a'r pethau y dylent eu cael wrth gynllunio i adael gofal.
- Mae Chwarae Cymru yn recriwtio Cynorthwyydd Cyfathrebu Digidol ar gyfer eu tîm ym Mae Caerdydd. Bydd y swydd amser llawn yn helpu Chwarae Cymru i gyrraedd ei gynulleidfaoedd targed allweddol.
- Mae Plant yng Nghymru yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc a fyddai â diddordeb mewn ymuno â'n rhestr o weithwyr cyswllt. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed gan siaradwyr Cymraeg sydd â diddordeb mewn gwaith cyfranogiad. Cysylltwch â lynne.hill@childreninwales.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Hyfforddiant a digwyddiadau

11.09.2019	"Cadw Ein Plant Yn Ddiogel" Hyfforddiant i'r Person Dynodedig Ar Gyfer Amddiffyn Plant	Conwy
12.09.2019	"Deall Awtistiaeth a'r ffordd y gall effeitihio'r plentyn a'u teulu/gofalwyr"	Caerdydd
19.09.2019	LHDT a Datblygiad Plant	Conwy
24.09.2019	Pobl Ifanc a Chamddefnyddio	Caerdydd
25.09.2019	Goruchwyliaeth: Model ar gyfer Ymarfer	Caerdydd
03.10.2019	ACE - Adeiladu Gwydnwch n wyned Profaidau Niweidiol yn ystod Plentyndod	Abertawe

Gellir cael mynediad at amserlen yr hyfforddiant a'r digwyddiadau yn llawn o wefan Plant yng Nghymru.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau.

Darlith Flynyddol Plant yng Nghymru

YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2019
DYDD MAWRTH, 6 AWST 2019, 4.30 TAN 5.15YP
STONDIN CYTUN, M07
MAES YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL,
GER FFERM CILCENNUS, HEOL BETWS, LLANRWST, CONWY LL26 0RB

Ymunwch a Plant yng Nghymru Ac Y Gwir Anrh Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru i glywed:

Cyflwyniad o amgylch dathlu penblwydd y Confensiwn Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn 30 oed eleni. Sut mae'r hawliau hyn wedi cael eu gweithredu yng Nghymru a pha effaith maen nhw wedi'i chael ar ein plant a'n pobl ifanc?

Ni chodir tâl i fynychu'r digwyddiad yma a fydd lluniaeth ysgafn a chyfieithiadau ar y pryd ar gael.

** COFIWCH BYDD RHAID TALU I DDOD AR Y MAES **

I gadarnhau eich lle, anfonwch ebost at: bookings@childreninwales.org.uk

Ymgynghoriadau Diweddaraf

Dyma'r ymgynghoriadau diweddaraf sy'n berthnasol i'r sector. Maent yn cael eu rhestru isod gyda'u dyddiadau cau.

- **Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol -** Mae GofalCymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru'r GIG wedi cyhoeddi eu Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol drafft at ddibenion ymgynghori. Mae modd cwblhau'r ymgynghoriad ar-lein, a chaiff cyflwyniadau eu derbyn tan **hanner nos ar 18 Medi 2019.**
- **Hawliau Plant yng Nghymru** - Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn archwilio effaith Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r cylch gorchwyl yn cynnwys faint mae'r Mesur wedi dylanwadu ar benderfyniad Llywodraeth Cymru, ac i ba raddau mae wedi arwain at ganlyniadau gwell i blant and pobl ifanc. Gallwch ddarllen y cylch gorchwyl llawn drwy ddefnyddio'r ddolen uchod, yn ogystal â dysgu sut i gyflwyno tystiolaeth. Daw'r ymgynghoriad i ben ar **20 Medi 2019**.
- **Canllawiau statudol a llawlyfr Addysg yn y Cartref** - Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am adborth ar eu canllawiau drafft i awdurdodau lleol a'r llawlyfr ar gyfer y sawl sy'n rhoi addysg yn y cartref. Nod y canllawiau yw helpu awdurdodau lleol i nodi plant nad ydynt mewn ysgol a gwneud yn siwr eu bod yn derbyn yr addysg mae arnynt ei hangen. Daw'r ymgynghoriad i ben ar **21 Hydref 2019.**

Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd Ansawdd

Mae Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi'r ail mewn cyfres o bapurau briffio sy'n cynnig canllaw cyflym i addysg a gofal plentyndod cynnar (ECEC).

Cafodd y canllaw ei ysgrifennu gan Dr. David Dallimore, Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor, o dan Gynllun Cymrodoriaeth Academaidd y Cynulliad.



Mae'r cyhoeddiad yn edrych ar beth yw ECEC ansawdd uchel, sut mae'n cael ei drefnu a sut mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa bresennol yng Nghymru.

Rhoddodd y papur cyntaf yn y gyfres briffio gyflwyniad i ECEC yng Nghymru ac yn gyffredinol.

Arolwg Pobl Ifanc Mind - Gwybodaeth i Bobl Ifanc

Mae Mind wedi agor arolwg i brofiadau iechyd meddwl pobl ifanc 13-24 oed y tu allan i'r ysgol. Gallwch ddarllen mwy oddi wrth Mind isod:

Mind ydym ni. Rydym yn helpu pawb i ddeall iechyd meddwl a lles ac yn rhoi gwybodaeth a chymorth fel bod pobl yn teimlo'n llai unig.

Rydym eisiau gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 13 a 24 oed. Er mwyn gwneud hynny, rydym angen clywed am eich profiadau chi y tu allan i'r ysgol - y pethau sy'n gwneud i chi deimlo'n drist, yn llawn straen neu'n bryderus. Rydym ni eisiau gwybod i ble rydych chi'n mynd pan ydych angen cymorth a beth arall y gellir ei wneud i roi cymorth i bobl ifanc.

P'un ai ydych chi wedi cael trafferth gyda'ch iechyd meddwl neu beidio, wrth ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddwl, gallwch ddweud eich dweud ar fater pwysig a helpu i sicrhau bod pobl ifanc eraill yn derbyn y cymorth gorau pan maent yn ei chael hi'n anodd.

Rydym wedi creu arolwg ar-lein i chi ei gwblhau. Mae'n hawdd iawn cael gafael arno ar eich gliniadur, dyfais tabled neu ffôn clyfar a bydd ond yn cymryd rhyw ddeng munud. Mae'n gwbl ddienw hefyd; yr unig fanylion personol rydym eu hangen yw eich dyddiad geni.

Dechreuwch yma: https://www.mind.org.uk/news-campaigns/campaigns/young-peoplesurvey/young-people-survey-welsh/

Os hoffech chi barhau i siapio gwaith Mind gyda phobl ifanc, bydd cyfle ar ddiwedd yr arolwg i gofrestru er mwyn derbyn diweddariadau rheolaidd a chyfleoedd i gymryd rhan.

Cymorth Ariannol Prince's Trust Cymru

Mae Gwobrau Datblygu Ymddiriedolaeth y

Tywysog ar gael bellach i bobl ifanc 16-30 oed. Darllenwch fwy oddi wrth Ymddiriedolaeth y Tywysog yma:

16-30 oed? Fe allech chi fod yn gymwys am daliad o hyd at £250 er mwyn eich cynorthwyo i gael mynediad i fyd gwaith, addysg neu wirfoddoli.

Gall Cymorth Ariannol gynorthwyo gyda thalu am:

- *Offer ar gyfer swydd neu gymhwyster e.e. offer trin gwallt, offer saer coed, gwisg cogydd, neu offer diogelwch personol (PPE)*
- *Ffioedd cwrs neu hyfforddiant*
- *Dillad ar gyfer cyfweliadau neu brofiad gwaith*
- *Ffioedd trwyddedau e.e. cerdyn CSCS (adeiladu) neu drwydded SIA (diogelwch)*
- *Costau gofal plant er mwyn cynorthwyo rhieni sengl i gael mynediad at addysg byrdymor*
- *Costau teithio e.e. teithio bws/ trên i fynd i swydd newydd tan fod y cyflog cyntaf yn cael ei dderbyn*

Am fwy o wybodaeth:

Rhadffôn 0800 842 842 Tecstiwch 'Call me' i 07983 385 418 princes-trust.org.uk info@princes-trust.org.uk.

Am y newyddion a'r polisi diweddaraf ewch i wefan Plant yng Nghymru.

This weekly e-briefing is prepared exclusively for you as part of your membership to Children in Wales. It provides you with information on the latest news and policy impacting on children and families in Wales, and also includes details of events and vacancies which may be of interest to you.

To view the full list of membership benefits that you can access, please click here. If you have any comments about this e-briefing please contact info@childreninwales.org.uk.

Vacancies

Find the latest job vacancies on the Children in Wales website. Don't forget - members can advertise for free.

- Children in Wales is looking for a Development Officer for the Getting Ready Project. Developing and delivering a suite of resources, the post holder will work to empower care experienced young people by enhancing their knowledge of their rights and entitlements when planning to leave care.
- Play Wales is recruiting a Digital Communications Assistant for their team in Cardiff Bay. The full time post will help Play Wales reach its key audiences.
- Children in Wales would like to hear from anyone with experience of working with young people who would be interested in joining our list of associated. We would particularly like to hear from Welsh speakers interested in participation work. Please contact lynne.hill@childreninwales.org.uk for more information.

Training and events

11.09.2019	"Keeping Our Children Safe" Training for the Designated Person for child Protection	Conwy
12.09.2019	"Understanding Autism and how it can imapct on a child and family/carers"	Cardiff
19.09.2019	LGBT & Child Development	Conwy
24.09.2019	Young People & Substance Misuse	Cardiff
25.09.2019	Supervision: A Model for Practice	Cardiff
03.10.2019	ACE- Building Resilience fin the Face of Adverse Childhood Experiences	Swansea

The full training and events schedule can be accessed from the Children in Wales website.

Click here for more information about our members' events and training.

Children in Wales' Annual Lecture at the National Eisteddfod 2019

TUESDAY, 6 AUGUST 2019, 4.30 - 5.15PM
CYTUN STAND, M07
NATIONAL EISTEDDFOD MAES,
NEAR CILCENNUS FARM, BETWS ROAD, LLANRWST, CONWY LL26 0RB

Join us and Rt Hon Mark Drakeford AM, First Minister of Wales to hear:

An address to celebrate the 30th anniversary of the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC). How have these rights have been implemented in Wales and what impact they have had on our children and young people?

There is no charge to attend this event and there will be light refreshments and simultaneous translation equipment available.

** PLEASE REMEMBER THAT YOU WILL NEED TO PAY TO ENTER THE MAES **

To secure your place, please send an email to: bookings@childreninwales.org.uk

Consultations Update

Here are the recent consultations of relevance to the sector. They're listed below with their deadlines.

- **Health & Social Care Workforce Strategy -** Social Care Wales and NHS Health Education and Improvement Wales have opened their draft Health and Social Care Workforce strategy for consultation. The consultation can be completed online, and submissions will be accepted until **midnight on 18 September 2019.**
- **Children's Rights in Wales** - The Children, Young People and Education Committee examining the impact of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. The terms of reference include how much Welsh Government's decision making has been influenced by the Measure, and how much it has led to improved outcomes for children and young people. You can read the full terms of reference at the link above, as well as find out how to submit evidence. The consultation closes on **20 September 2019**.
- **Home Education statutory guidance and handbook** - The Welsh Government is seeking view on their draft guidance to local authorities and the handbook for home educators. The guidance aims to help local authorities identify children not at school and make sure they're getting the education they need. The consultation closes on **21 October 2019.**

Early Childhood Education and Care: Quality Matters

The National Assembly for Wales Research service has published the second in a series of briefings providing a quick guide to early childhood education and care (ECEC).

The guide was written by Dr. David Dallimore, Bangor University School of Health Sciences, under the NAfW Academic Fellowship Scheme.



The publication examines what high quality ECEC is, how it is arranged and how this compares with the current situation in Wales.

The first in the series of briefings, provided an introduction to ECEC in Wales and in general.

Mind's Young People Survey - Information for Young People

Mind has opened a survey into the mental health experiences of 13-24 year olds outside of school. You can read more from Mind below:

We're Mind. We help everyone to understand mental health and wellbeing and give information and support so people feel less alone.

We want to improve the support that is available to young people aged 13-24. But to do that, we need to hear about your experiences outside of school - the things that make you feel sad or overwhelmed, stressed or anxious. We want to know where you go when you feel like you need help and what more could be done to support people your age.

Whether you have struggled with your mental health or not, by telling us what you think, you can have a say in an important issue and help make sure other people your age get the best support when they're finding it hard to cope.

We've created an online survey for you to fill in. It's really easy to access from your laptop, tablet or smartphone and should only take about ten minutes. It's totally anonymous too; the only personal information we need is your date of birth.

You can get started at: https://www.mind.org.uk/news-campaigns/campaigns/young-people-survey/

Princes Trust Cymru Development Awards

The Prince's Trust Development Awards are now available to young people 16-30. Read more from the Prince's Trust here:

Aged 16-30? You could be eligible for a payment, of up to £250 to help you into work,

education or volunteering.

Development Awards can help fund:

- *Tools or equipment for your job or qualification e.g. hairdressing kit, carpentry tools, chef's whites, personal protective equipment (PPE)*
- *Course and training fees*
- *Clothing for interviews or work experience*
- *License fees e.g. CSCS card (construction) or SIA license (security)*
- *Childcare costs to help single parents access short term education*
- *Transport costs e.g. bus/rail travel to a new job until your first salary payment*

For more information:

Freephone 0800 842 842 Text 'Call me' to 07983 385 418 princes-trust.org.uk info@princes-trust.org.uk.

For the latest news and policy please visit the Children in Wales.

STAY CONNECTED:

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive, click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.